

Ysgol Treganna

Cylchlythyr wythnosol



Croeso nol!

Croeso nol i bawb, gobeithio i chi fwynhau'r Nadolig. Rydyn ni'n edrych ymlaen at dymor prysur a chyffrous! Croeso arbennig i'r plant meithrin newydd sydd yn dechrau yn yr ysgol tymor yma.

Teams

Yn yr holiadur rhieni a ddanfonwyd allan tymor diwethaf, roedd adborth positif i systemau cyfathrebu'r ysgol. Ond roedd dal sôn bod gormod o lwyfannau cyfathrebu yn cael eu defnyddio yn yr ysgol.

Yn symud ymlaen, rydym yn mynd i barhau gyda Group Ed fel plattform cysylltu gyda rhieni - cyswllt wythnosol gyda'r holl negeseuon sy'n berthnasol i rieni ar ddydd Mawrth a'r cylchlythyr yn cydnabod llwyddiannau'r wythnos a gwybodaeth ysgol gyfan bob dydd Gwener. Bydd y cyswllt a'r cylchlythyr ar wefan yr ysgol yn wythnosol.

O fis Ionawr ymlaen, ni fyddwn yn defnyddio Teams o gwbl i ddanfon negeseuon dosbarth allan i rieni ac ni fyddwn yn ymateb yn uniongyrchol i rieni ar Teams. Bydd Teams yn cael ei ddefnyddio yn unig fel cofnod darllen ac ar gyfer gwaith cartref. Os hoffech gysylltu gydag athro/ athrawes eich plentyn, gofynnwn yn garedig i chi gysylltu'n uniongyrchol gyda'r dderbynfa drwy e-bost ar y cyfeiriad: ysgoltreganna@caerdydd.gov.uk. Byddwn yn ymateb cyn gynted ag y bo modd.

Mae gwybodaeth am ddigwyddiadau a dyddiadau pwysig tymor y gwanwyn wedi eu hanfon atoch heddiw ar Group Ed.

Calendr

Clybiau
allgyrsiol yn ail
ddechrau
13.1.25

Cyfarfod y
GRhA
Ysgol
Treganna
5.30yh
28.1.25

Bws Beic
31.1.25

Clybiau hanner tymor yma

Dyma amserlen clybiau allgyrsiol hanner tymor yma. Mae clybiau'r ysgol yn agored i bawb ond gofynnwn i chi gofrestru eich plentyn ar Parent Pay. Diolch i'r holl athrawon sy'n arwain y clybiau yma yn ysgol Treganna. Bydd y clybiau yn dechrau ar nos Lun, y 13eg o Ionawr.

<u>Amser</u> 3.30-4.30	<u>Clwb</u>	<u>Blwyddyn</u>	<u>Cost am yr hanner tymor (i'w dalu ar Parent Pay)</u>	<u>Casglu</u>
<u>Dydd Llun</u>	<u>Celf</u>	2	£2	<u>Mynedfa'r dderbynfa</u>
	<u>Gwau</u>	6	£2	<u>Mynedfa'r dderbynfa</u>
<u>Dydd Mercher</u>	<u>Hoci</u>	4	£2	<u>Mynedfa'r dderbynfa</u>
	<u>Cân Actol</u>	6	<u>Nid oes angen cofrestru</u>	<u>Mynedfa'r dderbynfa</u>
	<u>Urdd</u>		<u>Allanol</u>	<u>Mynedfa'r dderbynfa</u>
<u>Dydd Iau</u>	<u>Ryabi</u>	5 a 6	£2	<u>Mynedfa'r dderbynfa</u>
	<u>Pêl-rwyd</u>	5 a 6	£2	<u>Mynedfa'r dderbynfa</u>
<u>Dydd Gwener</u>	<u>Dancefit</u>		<u>Allanol</u>	<u>Mynedfa'r dderbynfa</u>

Rhiant lywodraethwr

Diolch i bawb wnaeth ymgeisio am rôl rhiant lywodraethwr yn Ysgol Treganna.

Llongyfarchiadau i Anna Gruffudd-Fleming sydd wedi ei hethol fel rhiant lywodraethwr newydd yr ysgol.

Edrychwn ymlaen at gydweithio gyda hi a gweddi y llywodraethwyr unwaith eto'r tymor yma.

Mae gwybodaeth bellach am lywodraethwyr Ysgol Treganna ar wefan yr ysgol.

Y GRhA

Diolch i'r GRhA a'r holl wirfoddolwyr am eu holl waith tymor diwethaf. Llwyddwyd i godi swm anferthol o £4,256 yn nhymor yr hydref!

Bydd yr arian yma yn cael ei ddefnyddio ar gyfer prynu adnoddau i'r iard ac i ardaloedd allanol bob dosbarth.

Bydd cyfarfod cyntaf tymor yma'r GRhA ar nos Fawrth, yr 28ain o Ionawr yn Nyth Ysgol Treganna am 5.30yh

Byddwn yn trafod gweithgareddau tymor yma ac yn edrych ymlaen at drefnu digwyddiadau tymor yr haf.

Croeso mawr i bawb.

Arian ffrwyth Meithrin, Derbyn, Blwyddyn 1 a 2

Os hoffech i'ch plentyn dderbyn ffrwyth yn ddyddiol yr hanner tymor yma, gofynnwn yn garedig am daliad o £6.50 i'w dalu ar Parent Pay.

Mae croeso i'ch plentyn ddod a ffrwyth o adref i fwyta amser egwyl.

Gofynnwn yn garedig i chi rhoi gwybod i'r dderbynfa-

ysgoltreganna@caerdydd.gov.uk

os nad yw'ch plentyn am dderbyn ffrwyth o'r ysgol yn ddyddiol.

Diolch yn fawr.

Y Ffrwydriad Ffrwythau

Neges gan y Cyngor Ysgol

Siop ffrwythau'r Cyngor Ysgol i ddisgyblion bl 3,4,5 a 6

Rydym ni'r Cyngor Ysgol am hybu bwyta iach yn Ysgol Treganna. Ar ddydd lau'r 16eg o Ionawr, byddwn yn cynnal siop ffrwythau "Y Ffrwydriad Ffrwythau" yn neuadd yr ysgol i ddisgyblion bl 3,4,5 a 6.

Yn y siop, bydd Twba Lwcus ffrwythau, smwddi ffrwythau ac ysgytlaeth ffrwythau. Bydd popeth yn costio 50c.

Yn ystod yr wythnos, byddwn yn gofyn i ddisgyblion y dosbarthiadau beth maent am archebu ar ddydd lau.

Yna, byddwn yn mynd i siopa, paratoi'r siop a gwerthu pob dim (gobeithio!) ar ddydd lau. Felly cofiwch am ein siop Y Ffrwydriad Ffrwythau, dydd lau nesaf, Ionawr y 18fed a dewch ag arian parod i'r ysgol er mwyn prynu o'r siop.

Patrwm Iaith

Dyma batrwm iaith wythnos nesaf

Byddaf i yn...

Her

Edrychaf ymlaen at...

Fy hoff beth i yn y byd ydy...

Testun trafod yr wythnos

Does dim pwrpas siarad Cymraeg

Cân yr wythnos

Buddug - Unfan

Idiom yr wythnos

Y drwg yn y caws

